coeliac uk
live well gluten free

# Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis
# Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis

Dyddiad ac amser: Nos Fawrth 27 Chwefror 2018, 18.00-19.30
Tuesday 27 February 2018, 18.00-19.30
Lleoliad: Ystafell Gynadledda D, Tŷ Hywel .
Conference Room C, Tŷ Hywel

Yn bresennol: Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd), Tristan Humphreys (Ysgrifennydd), Alison Jones, Dr Geraint Preest, Dr Jill Swift, Norma McGough, Rhun ap Iorwerth AC, Ryland Doyle.

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>Graham Philips, Dr Huw Jenkins, Simon |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br><br>Cymeradwywyd y cofnodion heb ddiwygiadau. |
| 3 | **Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)**<br>a. Diweddariad (TH)<br>Rhoddodd Tristan Humphreys (TH) ddiweddariad byr ar gynnydd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru), sef Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 erbyn hyn.<br>• Pasiwyd 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru)' gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddiwedd y llynedd a derbyniodd gydsyniad brenhinol ddechrau 2018.<br>• Mae'r dyddiad cau ar gyfer gweithredu’r system newydd wedi'i ohirio tan fis Medi 2020 erbyn hyn (roedd y dyddiad gwreiddiol yn 2019).<br>• Cyflwynodd y Gynghrair Iechyd mewn Ysgolion (y mae Coeliac UK yn aelod ohoni) ymateb ar y cyd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar weithredu'r fframwaith newydd. Hanfod eu pryderon oedd a fydd anghenion meddygol yn cael eu dyrannu i Gynlluniau Gofal Iechyd Unigol neu Gynlluniau Datblygu Unigol (Yr unig fath sydd wedi’i grybwyll hyd yma - Sonnir am hyn ar d. 21 o'r adroddiad ymgynghori).<br>• Cod ymarfer: ymgynghorir ar y llawlyfr ar gyfer y ddeddfwriaeth eleni a bydd Coeliac UK a phartneriaid yn argymell newidiadau sylweddol i'r adran 'Anghenion gofal iechyd'. Yr amserlen wreiddiol oedd yn gynnar yn 2018 ond mae datganiadau diweddar yn awgrymu y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn yr hydref gyda’r bwriad o gyhoeddi’r ddogfen derfynol yn 2019.<br>• Canllawiau 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd': Gydol taith y Ddeddf ADY, yr awgrym yw y bydd angen ailysgrifennu’r ddogfen hon ond nid yw hyn wedi’i gadarnhau eto.<br>• Bydd Sara Moran (Diabetes UK Cymru) yn cwrdd â staff Kirsty Williams yn y dyfodol agos ar ran y Gynghrair. |

| | |
|---|---|
| | CAM GWEITHREDU: TH i ddiweddaru'r grŵp ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf |
| 4 | **Sioe Bwyd Di-Glwten Cymru**<br><br>a. Adolygiad o ddigwyddiad 2017 (TH)<br><br>Diweddarodd TH y grŵp ar gynnal Sioe Bwyd Di-glwten gyntaf Cymru a diolchodd i bawb a fynychodd. Nod gwreiddiol yr elusen oedd denu 500 o ymwelwyr ar y diwrnod gyda 15 o arddangoswyr di-glwten yn arddangos eu cynhyrchion. Yn y digwyddiad, daeth tua 1,400 o bobl a denwyd 20 o gwmnïau i arddangos.<br><br>Eglurodd TH mai dim ond tua 50% o'r rhai a gofrestrodd i fynychu a ddaeth ar y dydd ac er bod y niferoedd yn fawr, y broblem fwyaf oedd amserau cyrraedd gyda 60% yn mynychu yn yr awr a hanner gyntaf a llawer yn cyrraedd awr cyn i'r digwyddiad agor. Felly roedd pobl yn ciwio drwy'r gwesty ac allan i'r stryd. Teimlwyd bod y lleoliad yn rhy fach ar gyfer y niferoedd hyn ond bod y staff yn gymwynasgar iawn.<br><br>Yn anffodus, roedd y digwyddiad ar yr un pryd â gornest deitl Anthony Joshua (a gyhoeddwyd 3 wythnos ynghynt) ac arweiniodd hynny at anawsterau o ran parcio a chael ystafelloedd gwesty yng nghanol y ddinas. Roedd paratoi yn her i arddangoswyr hefyd gan fod rhaid gwneud llawer ohono ar fore'r digwyddiad ac roedd mynediad i gerbydau at y lleoliad yn gyfyngedig.<br><br>Denwyd cynulleidfaoedd da i'r sgyrsiau ac roedd y drafodaeth gyda phanel (dan gadeiryddiaeth Dr Dai Lloyd AC, a Norma McGough, Jill Swift ac Alison Jones ymhlith eraill ar y panel) a'r arddangosiadau coginio yn arbennig o boblogaidd. Diolchodd TH i Dr Dai Lloyd AC (DL) a'r panelwyr am eu cefnogaeth.<br><br>Hoffai Coeliac UK ddiolch hefyd i'r llu o wirfoddolwyr a gynorthwyodd ar y diwrnod gan gynnwys Graham Philips, aelod y Grŵp Trawsbleidiol (CPG).<br><br>Awgrymodd JS y dylid gwasgaru amseroedd cofrestru er mwyn cynorthwyo gyda niferoedd ar gyfer 2018. Eglurodd TH fod hyn yn bosibl a'i fod yn un opsiwn sy'n cael ei ystyried. Bydd yr elusen yn llogi lleoliad mwy ac ni fydd yn cynnig bagiau rhodd, a dylai hynny ynddo'i hun gael effaith fawr hefyd. Ar y cyfan, roedd y niferoedd yn gadarnhaol iawn ac roedd yr arddangoswyr yn hapus iawn felly cafwyd sioe gyntaf lwyddiannus.<br><br>Ychwanegodd Geraint Preest (GPr) fod ei dderbynnydd wedi mynychu ac yn meddwl bod y sioe yn wych.<br><br>b. Diweddariad ar gynlluniau ar gyfer 2018 (TH)<br><br>Cynhelir Sioe Bwyd Di-glwten Cymru 2018 ar yr 8 Medi yn Stadiwm Dinas Caerdydd.<br><br>Mae TH wedi edrych ar nifer o leoliadau ac wedi penderfynu ar Stadiwm Dinas Caerdydd fel y gorau sydd ar gael. Mae ganddo 1,500 o lefydd parcio am ddim ac mae'n caniatáu mynediad y diwrnod cynt. Mae'r lleoliad hefyd yn croesawu cynulleidfaoedd mawr yn rheolaidd ac felly dylent fod yn barod i ddelio â hyn. |

| | |
|---|---|
| | Gyda lleoliad newydd a mwy, a phrofiad o heriau'r llynedd, mae Coeliac UK yn bwriadu cyflwyno sioe fwy a gwell yn 2018. Gyda hyn mewn golwg, bydd yr elusen yn ceisio ehangu i 25 o arddangoswyr ar y diwrnod. Dylid cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo a chyfathrebu masnachol yn gynharach eleni gan i'r templedi ar eu cyfer gael eu cynhyrchu cyn sioe 2017. Bydd y rhaglen ar gyfer y digwyddiad yn cael ei datblygu yn yr wythnosau nesaf ond bydd y grŵp yn cael gwybod y diweddaraf yn y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser, gallwch gofrestru am ddim ar ein tudalen Eventbrite.<br><br>CAM GWEITHREDU: TH i ddiweddaru'r grŵp ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf.<br><br>CAM GWEITHREDU: PAWB i gadw'r dyddiad (8 Medi 2018) yn rhydd i fynychu Sioe Bwyd Di-glwten Cymru 2018. |
| 5 | **Presgripsiynau**<br><br>a. Diweddariad ar ganlyniad ymgynghoriad GIG Lloegr (NMG)<br><br>Briffiodd Norma McGough (NMG) y grŵp ar Ymgynghoriad diweddar GIG Lloegr ar ragnodi di-glwten yn Lloegr. Lansiodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr ymgynghoriad ym mis Mawrth a daeth i ben ym mis Mehefin 2017. Dyma'r opsiynau a ystyriwyd:<br><br>1. Dim newidiadau: Peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ragnodi di-glwten mewn gofal sylfaenol yn Lloegr<br>2. I bob pwrpas, rhoi diwedd ar ragnodi bwydydd di-glwten mewn gofal sylfaenol drwy gosbrestru'r holl fwydydd di-glwten yn Atodlen 1 yn Lloegr<br>3. Cyfyngu ar ragnodi bwydydd di-glwten mewn gofal sylfaenol i fara a chymysgedd blawd yn Lloegr.<br><br>Cyhoeddwyd y penderfyniad yn gynharach y mis hwn gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cymeradwyo opsiwn 3 - parhau i ragnodi nifer cyfyngedig o gynhyrchion di-glwten (bara a chymysgedd blawd). Croesawodd Coeliac UK y penderfyniad gan fod yr elusen yn ofni y byddai pob cynnyrch di-glwten yn cael ei gosbrestru a byddai hynny wedi bod yn gryn ergyd i bobl â chlefyd coeliag yn Lloegr. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw hyn yn effeithio ar allu'r Grwpiau Comisiynu Clinigol (CCG) i bennu eu polisïau eu hunain a gallant barhau i gyfyngu ar bresgripsiynau di-glwten y tu hwnt i'r hyn a argymhellir gan benderfyniad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Ar hyn o bryd mae oddeutu traean o CCGs yn parhau i ragnodi yn unol â chanllawiau rhagnodi cenedlaethol, mae traean arall wedi cyfyngu naill ai yn unol ar argymhellion PrescQIPP (50% o'r cyfaint uned mewn Canllawiau Rhagnodi Cenedlaethol a chynhyrchion wedi'u cyfyngu i fara a chymysgedd blawd) neu mewn ffyrdd eraill megis trwy ddefnyddio fformiwlâu mwy cyfyngedig ac yn olaf mae'r traean sy'n weddill wedi rhoi'r gorau i ragnodi cyffredinol yn llwyr. Mae Coeliac UK wedi gwrthwynebu'n gryf cael gwared yn llwyr ar fynediad at fwyd di-glwten ar bresgripsiwn ac mae wedi darbwyllo CCGs i alluogi'r defnydd o ddisgresiwn clinigol i nodi cleifion lle'r oedd cael gwared ar ragnodi wedi cael effaith wael ar eu cyflwr fel bod modd parhau i'w cefnogi gyda bwyd di-glwten ar bresgripsiwn, oherwydd cost uwch bwydydd di-glwten fel bara. |

| | |
|---|---|
| | Yn dilyn y penderfyniad, mae Coeliac UK wedi ysgrifennu at yr holl CCGs hynny lle nad yw polisïau cyfredol yn cyd-fynd â’r argymhellion a nodir yn adroddiad yr Adran Iechyd, gan ofyn am wybodaeth ynghylch os a sut y byddant yn ystyried hyn.<br><br>Mae Sarah Sleet (Prif Weithredwr - Coeliac UK) ac NMG yn aelodau o weithgor yr Adran Iechyd sydd â’r dasg o gwmpasu'r gwaith sydd ei angen o ganlyniad i'r penderfyniad hwn. Gyda nhw yn y grŵp mae cynrychiolwyr o'r RCGP, BDA, GIG Lloegr, CCGs, ACBS a BSNA[1]. Mae'r grŵp yn adolygu'r cynhyrchion di-glwten a restrir yn y tariff cyffuriau, gan gosbrestru unrhyw gynhyrchion di-glwten nad ydynt yn cyd-fynd â diffiniadau 'bara' a 'chymysgedd blawd'. Cytunwyd ar ddiffiniadau clir o 'fara' a 'cymysgedd blawd'. Er enghraifft, cytunwyd y byddai rholiau, torthau o fara a bara heb furum i gyd yn cael eu cynnwys ond nid pizzas plaen. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymateb a gafodd Coeliac UK yn ystod ei ymgynghoriad Gwarant Di-Glwten lle bu’r elusen yn holi aelodau a dietegwyr pa gynhyrchion bob dydd sydd bwysicaf iddynt allu eu cael yn eu tyb nhw. Ystyriwyd bod pizza ar y cyrion yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw, mae’n aml yn cael ei ystyried yn ddadleuol yn y wasg brif ffrwd, ac ynghyd â'r gwahaniaeth cost is o'i gymharu â chynhyrchion bara eraill, teimlwyd y gellid ei eithrio.<br><br>Er ei bod yn ddyddiau cynnar, rhybuddiodd NMG y byddai'r newid yn un ysgubol eang. Gofynnir i'r holl weithgynhyrchwyr ymuno â'r rheoliadau newydd yn hytrach na chwblhau cais newydd. Credir bod hwn yn gyfle hirddisgwyliedig i adnewyddu'r fformiwlâu gan nad yw hyn wedi'i wneud o'r blaen. Mae disgwyl i’r rhestr newydd gael ei chyhoeddi ym mis Tachwedd.<br><br>Rhoddodd TH ac NMG sylw i bryder ynghylch y posibilrwydd o effaith ddilynol ar Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon oherwydd er bod ACBS yn dod o dan yr Adran Iechyd, defnyddir y rhestr ledled y DU. Roedd TH yn pryderu y gallai newidiadau deddfwriaethol yn Lloegr felly arwain yn anfwriadol at gyfyngu ar gynhyrchion sydd ar gael i gleifion yng Nghymru, gan arwain at newid polisi drwy'r drws cefn i bob pwrpas. Soniodd AJ ei bod wedi siarad â Phrif Fferyllydd Cymru a gododd yr un pryder.<br><br>Rhybuddiodd NMG fod digon o waith i'w wneud eto a bydd cyfle i fynd i'r afael â hyn. Amlygodd hefyd mai cymysgedd blawd a bara yw'r cynhyrchion mwyaf cyffredin a roddir ar bresgripsiwn a’r rhain hefyd yw’r cynhyrchion drutaf i ddefnyddwyr ym maes manwerthu.<br><br>Gofynnodd TH i AJ pa mor ymwybodol oedd fferyllwyr yng Nghymru o'r newidiadau hyn a chadarnhaodd AJ fod yna bryder mawr. Mae Prif Fferyllydd Cymru yn pryderu na fydd hyn yn gwneud llawer o wahaniaeth i gost mewn gwirionedd a phwysleisiodd eu bod o dan bwysau i leihau costau. Eglurodd NMG y bydd peth o'r wybodaeth newydd a gesglir yn ymwneud â’r gost i'r GIG a chostau manwerthu yn ogystal ag edrych ar nodweddion maethol. Mae'r grŵp hefyd yn edrych ar gynhyrchion wedi’u hatgyfnerthu oherwydd nad oes safonau atgyfnerthu ar waith ar gyfer bara a chynhyrchion di-glwten ar hyn o bryd. |

[1] RCGP- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol; BDA - Cymdeithas Ddeieteg Prydain; ACBS - Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol; BSNA - Cymdeithas Maethiad Arbenigol Prydain

| | |
|---|---|
| | Dyma gam 1 ond bydd yr Adran Iechyd yn edrych ar faint o fwyd di-glwten a roddir ar bresgripsiwn a llwybrau cyflenwi amgen yng ngham 2. Mae'n amlwg bod y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Coeliac UK, yn cynnwys tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio a chostau ychwanegol i'r GIG, wedi cael effaith ar y gweinidog ac roedd GIG Lloegr a chomisiynwyr yn anhapus gyda'r penderfyniad terfynol.<br><br>CAM GWEITHREDU: NMG & TH i gwmpasu effaith bosibl newidiadau yn Lloegr ar gymhwyso rhestr ACBS yng Nghymru a diweddaru'r grŵp yn y cyfarfod nesaf.<br><br>b. Y wybodaeth ddiweddaraf am beilot Rhagnodi Hywel Dda (AJ)<br><br>Fe wnaeth AJ ddiweddaru'r grŵp ar gynnydd peilot Rhagnodi Hywel Dda. Ers y cyfarfod diwethaf, dyfarnwyd y tendr am ddarparu'r cerdyn electronig i gwmni o'r enw 'allpay' sydd â phrofiad o ddarparu cardiau gofal cymdeithasol ac mae'n gyfarwydd â gweithio gydag awdurdodau.<br><br>Mae llythyrau a phecynnau wedi'u hanfon at 197 o gleifion sydd ar hyn o bryd yn derbyn presgripsiynau di-glwten ar draws 9 practis yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn eu gwahodd i gymryd rhan. Mae AJ yn disgwyl i ffurflenni caniatâd gael eu dychwelyd erbyn 12 Mawrth. Mae AJ wedi ymweld â 6 o'r practisau yn barod i siarad â chleifion yn bersonol ac mae wedi ffonio pawb a dderbyniodd lythyr. O'r rhai y mae hi wedi siarad â nhw, mae 67% wedi dewis cymryd rhan. Un rhwystr yw mynediad at gymysgeddau bara gyda Juvela yn cyfeirio at ddiffyg parodrwydd manwerthwyr i'w stocio. Fel arall cafwyd ymateb cadarnhaol iawn.<br><br>Ymddengys mai'r rhai lleiaf parod i gymryd rhan yn y peilot yw'r rhai sy'n derbyn yr uchafswm sydd ar gael ar eu presgripsiynau. Mae eraill wedi dweud eu bod yn hapus i'w brynu eu hunain lle maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n gallu fforddio hynny.<br><br>Mae AJ yn gobeithio dechrau'r cynllun peilot yn ystod wythnos gyntaf Ebrill am 6 mis. Yna byddai'r prosiect ymchwil yn cael ei gynnal o fis Mehefin i fis Awst.<br><br>c. Cwestiynau a thrafodaeth<br><br>Gofynnodd JS sut roedd AJ yn sicrhau bod y cleifion sy'n cymryd rhan yn gynrychioliadol o'r garfan ehangach sy'n cael presgripsiynau ar hyn o bryd. Sicrhaodd AJ JS fod y practisau wedi cael eu dewis i roi trawstoriad o boblogaeth cleifion Hywel Dda gan gymryd i ystyriaeth ffactorau megis natur wledig a chyfraddau amddifadedd. Bydd AJ hefyd yn cysylltu â'r rhai a ddewisodd beidio â chymryd rhan i ganfod eu rhesymau er mwyn sicrhau bod hyn hefyd yn cael ei ystyried yn y gwerthusiad.<br><br>Ategodd TH y drafodaeth drwy sôn am yr angen i olrhain yr hyn a brynir. Eglurodd AJ nad yw'r gofyniad i gleifion gyflwyno derbynebau wedi bod yn broblem ac maent wedi bod yn barod iawn i ymrwymo i wneud hynny. Dywedodd Rhun ap Iorwerth (RhaI) y byddai wrth ei fodd yn cael cerdyn yn ei dŷ ef a chadarnhaodd AJ fod rhieni wedi bod yn falch iawn.<br><br>Gofynnodd TH am eglurhad ynghylch yr hyn a fydd ac na fydd yn cael ei gyfyngu ar y cerdyn. Esboniodd AJ y bydd yn cael ei gyfyngu i siopau groser, fferyllfeydd a siopau groser ar-lein. Mae hi wedi cael rhai ceisiadau ynghylch a ellir ei ddefnyddio, er enghraifft, i brynu brechdan di-glwten Marks and |

| | |
|---|---|
| | Spencer neu quiche di-glwten ac mae hyn yn iawn. Croesawodd RhaI yr hyblygrwydd hwn.<br><br>Gofynnodd NMG am gadarnhad ynghylch pryd y bydd y data ar gael. Mae AJ yn gobeithio cynnal digwyddiadau ymgynghori ar ddiwedd y prosiect gydag arolygon yn cael eu dosbarthu 5 mis ar ôl dechrau'r prosiect felly dylai fod ganddi rywfaint o ddata cyn diwedd y prosiect.<br><br>Gofynnodd RhaI a fyddai'n bosibl gwybod faint y mae'r cynllun yn ei gostio o'i gymharu â rhagnodi arferol a chadarnhaodd AJ ei bod wedi bod yn casglu sgriptiau er mwyn gwneud hyn.<br><br>CAM GWEITHREDU: AJ i ddiweddaru'r grŵp yn y cyfarfod nesaf |
| 6 | Informatica:<br><br>a. Diweddariad ar gynnydd (TH/NMG)<br><br>Rhoddodd TH ac NMG ddiweddariad ar feddalwedd Informatica. Ni ydynt wedi gallu cael gafael ar Simon Scourfield yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ac felly ni fu unrhyw gynnydd. Maent wedi drafftio cais ar gyfer y pwyllgor DQS ond heb fewnbwn NWIS mae hyn yn anodd iawn.<br><br>Cadarnhaodd GPr nad oedd fawr o gynnydd ar lawr gwlad ac nad yw cynnydd pellach yn bosibl ar hyn o bryd yn ôl pob tebyg.<br><br>Dywedodd AJ fod hyn yn drueni oherwydd bod practisau sy'n ei defnyddio yn Hywel Dda wedi elwa.<br><br>Mae'r Alban yn ystyried lansio meddalwedd cynorthwyo penderfyniadau debyg ac mae GPr hefyd wedi cael ymholiad gan David Bellamy (meddyg teulu o Swydd Amwythig) ynghylch defnyddio'r feddalwedd yn ei feddygfa.<br><br>Awgrymodd JS y gellid defnyddio'r feddalwedd fel adnodd addysgu a chefnogwyd hyn gan GPr sy'n hapus i gynhyrchu fideo arall ar y sail honno. Eglurodd NMG fod CUK yn bwriadu ymgysylltu â Meddygon Teulu eleni fel ffocws penodol ac felly mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r elusen.<br><br>Gofynnodd NMG pa feddalwedd cynorthwyo penderfyniadau sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd ac esboniodd GPr nad oedd un system unffurf yn cael ei defnyddio. Mae system TG newydd yn cael ei chyflwyno a bydd gan Feddygon Teulu ddewis rhwng Vision neu Microtest gan na fydd EMIS yn cael ei ddefnyddio mwyach. Gwnaeth GPr y pwynt fod meddygon teulu yn hunangyflogedig, felly mae ganddynt ddewis i benderfynu ar eu systemau eu hunain sy'n ei gwneud hi'n anoddach integreiddio ar draws y system. Mynegodd bryderon felly y bydd hwn yn gyfle wedi'i golli i gyflwyno system integredig yng ngwir ystyr y gair.<br><br>Yn ogystal, esboniodd GPr fod clefyd seliag yn anffodus yn isel iawn ar restr blaenoriaethau meddygon teulu ac o ystyried y pwysau sydd arnynt ar hyn o bryd, maent yn amddiffynnol iawn ac yn amharod i ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau a allai gynyddu eu llwyth gwaith. Er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr penderfynwyd na fydd cyffuriau NOAC yn cael eu rhoi mewn gofal sylfaenol mwyach a bydd angen eu rhagnodi trwy ofal eilaidd. |

| | |
|---|---|
| | Yn yr un modd, disgrifiodd JS yr heriau y mae hi'n eu hwynebu wrth gael meddygon teulu i gymryd cleifion yn ôl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r clinig seliag. Ailadroddodd GPr fod y system ar fin torri ac nid mewn gofal sylfaenol yn unig.<br><br>Holodd TH am y dechnoleg ac a fyddai audit+ wedi'i lwytho'n barod ar Microtest gan nad oedd y feddalwedd wedi'i llwytho'n barod ar EMIS a bod hyn yn rhwystr. Bydd GPr yn gwirio hyn.<br><br>Yn anffodus, teimlwyd ein bod wedi dod at ddiwedd y daith gydag Informatica a bod gwaith pellach arno ar ei ffurf bresennol yn annhebygol o fod yn werth chweil ar hyn o bryd.<br><br>CAM GWEITHREDU: TH ac NMG i lunio'r camau nesaf posibl a'u cyflwyno yn y cyfarfod nesaf |
| 7 | **Unrhyw fater arall**<br><br>a. Cylchgrawn Crossed Grain Coeliac UK<br>Gofynnodd TH i'r grŵp a fyddent yn hapus i Coeliac UK hysbysu ei aelodau am gyfarfodydd y Grŵp yn y dyfodol yng nghylchgrawn chwarterol yr elusen, Crossed Grain. Roedd y grŵp yn hapus â hyn. Gofynnodd RhaI a fyddai angen tudalen Eventbrite neu e-bost ymlaen llaw a chytunodd TH. Bydd TH yn edrych ar y ffordd orau o weinyddu hyn.<br><br>CAM GWEITHREDU: TH i gyflwyno dyddiadau cyfarfodydd i dîm golygyddol Crossed Grain.<br>CAM GWEITHREDU: TH i gytuno ar broses ar gyfer rheoli presenoldeb yn y Grŵp o ganlyniad.<br><br>Tynnodd TH sylw at nodwedd ar y Grŵp Trawsbleidiol a chyn-Drefnydd Grŵp Abertawe, Lyndsay Morgan, yn rhifyn cyfredol cylchgrawn Crossed Grain.<br><br>b. Amseroedd y cyfarfod nesaf:<br><br>Trafododd y grŵp yr amseroedd gorau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol oherwydd y problemau sy'n codi pan fydd pleidleisio'n gorffen yn hwyr. Cytunwyd y byddwn yn parhau i gyfarfod ar yr un pryd ac os bydd pleidleisio'n rhedeg yn hwyr, bydd TH yn dechrau'r cyfarfod yn absenoldeb y cadeirydd.<br><br>c. Wythnos Ymwybyddiaeth:<br><br>Mae Coeliac UK yn bwriadu cynnal digwyddiad arall yn y Cynulliad, yn y ffreutur mae'n debyg, fel y gwnaed y llynedd. Bydd TH yn diweddaru'r grŵp am hyn.<br><br>CAM GWEITHREDU: TH i gysylltu â DL ynghylch cynlluniau ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth.<br>CAM GWEITHREDU: TH i adrodd yn ôl ar y digwyddiad/gweithgareddau yn y cyfarfod nesaf. |

| | |
|---|---|
| 8 | **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:**<br>6pm, Nos Fawrth 19 Mehefin |

**Camau gweithredu**

| **Cam gweithredu** | **Wedi'i neilltuo i** |
|---|---|
| Diweddaru'r grŵp ar beilot rhagnodi Hywel Dda yn y cyfarfod nesaf | **AJ** |
| CADW'R DYDDIAD: 8 Medi 2018 i fynychu Sioe Bwyd Di-glwten Cymru 2018, Stadiwm Dinas Caerdydd. | **PAWB** |
| Cwmpasu effaith bosibl newidiadau rhagnodi yn Lloegr ar gymhwyso rhestr ACBS yng Nghymru a diweddaru'r grŵp yn y cyfarfod nesaf. | **TH/NMG** |
| Diweddaru'r grŵp ar gynnydd ADY yn y cyfarfod nesaf | **TH** |
| Diweddaru grŵp ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf. | |
| Cyflwyno dyddiadau cyfarfodydd i dîm golygyddol cylchgrawn Crossed Grain Coeliac UK. | |
| Cytuno ar broses o reoli ceisiadau gan aelodau/y cyhoedd i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol | |
| Cysylltu â DL ar gynlluniau'r Cynulliad ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth. | |
| Adrodd yn ôl ar ddigwyddiad/gweithgareddau yr Wythnos Ymwybyddiaeth yn y cyfarfod nesaf. | |